

## COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

### CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 25 GORFFENNAF 2018 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:00)

**Aelodau CFfDLC yn bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), Theo Joloza (Aelod),  
Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru:** Mark Jones

**Cynrychiolydd Deloitte yn bresennol:** Lauren Parsons

**Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn bresennol:** Lisa James

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr), David  
Carr (Rheolwyr Cyllid), David Burley (Rheolwr  
Cymorth Busnes)

#### **1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan David Powell (Aelod), Steve Halsall (Prif Weithredwr), Ian Howse (Deloitte) a Derwyn Owen (Swyddfa Archwilio Cymru).

#### **2. Datganiadau o Fuddiant**

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

#### **3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2018**

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2018.

#### **4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol**

4.1 Nododd y Pwyllgor fod mwyafrif yr eitemau yn codi o'r cyfarfod blaenorol bellach wedi'u cwblhau neu yr eir i'r afael â nhw yn hwyrach ar yr agenda.

4.2 Roedd rhai eitemau'n weddill hyd, sef:

- rydym yn aros am gadarnhad o'r trefniadau ar gyfer adolygiad allanol cyfnodol o archwilio mewnol gan Deloitte;
- rydym yn aros am ystyriaeth o'r gofynion archwilio mewnol ar gyfer trefniadau TGCh newydd CFfDLC gan Deloitte; ac
- rydym yn aros am adroddiadau 2017-18 o'r archwiliad mewnol o systemau TGCh Llywodraeth Cymru gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.

4.3 Crybwyllwyd bod Deloitte wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar drefniadau ar gyfer adolygiad allanol o archwilio mewnol, a dylai fod yn bosibl cyflwyno adroddiad diweddarau yn y cyfarfod nesaf.

**Gweithredu:** Deloitte **Erbyn:** 21 Tachwedd 2018

4.4 Nodwyd y dylai'r ystyriaeth o'r gofynion archwilio mewnol ar gyfer trefniadau TGCh newydd CFfDLC gael ei chwblhau erbyn diwedd 2018.

4.5 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu â'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd i geisio symud y mater yn ymwneud ag adroddiadau archwilio mewnol TGCh Llywodraeth Cymru ymlaen.

**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 21 Tachwedd 2018

## 5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2018-19

5.1 Crybwyllwyd bod Cynllun Gwaith newydd wedi'i ddrafftio ar gyfer 2018-19. Nododd a **chytunodd** y Pwyllgor â chynnwys Cynllun Gwaith 2018-19.

## 6. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

6.1 Nododd a **chytunodd** y Pwyllgor â chynnwys y Cylch Gorchwyl.

## 7. Cyfrifon Blynnyddol 2017-18 a'r Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol a'r Llythyr Rheoli

7.1 Nodwyd bod CFfDLC wedi ystyried y datganiadau ariannol a'r cyfrifon drafft yn ei gyfarfod ar 24 Gorffennaf 2018.

7.2 Crybwyllodd Mark Jones y derbyniwyd y cyfrifon yn gynnar a'u bod o safon uchel iawn ac, o ganlyniad, aeth y gwaith archwilio rhagddo'n rhwydd. Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod, cyn belled â na fydd unrhyw ddigwyddiadau'n effeithio ar y cyfrifon ar ôl eu llofnodi.

7.3 Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon, nac unrhyw faterion neu argymhellion sylweddol eraill yn codi o'r archwiliad. Fodd bynnag, roedd sawl camddatganiad a gywirwyd yn y cyfrifon ar ôl yr archwiliad, sef:

- aiddosbarthu gwariant cyfalaf ar y porth arolygon fel gwariant refeniw i gydymffurfio â pholisi cyfrifyddu;
- tynnwyd gwariant cyfalaf ar oleuadau newydd ar gyfer y swyddfa o'r croniadau, oherwydd nad oedd rhywfaint o'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth;
- ail-gyfrifwyd dibrisiant asedau a drosglwyddwyd i adlewyrchu oes ostyngol yr asedau;
- gostyngwyd cronriad prydles y swyddfa i gyfrif am elfen y blaendal, nad yw'n cael ei ystyried yn gost prydlesu; a
- thynnwyd costau prydles gweithredu o'r nodyn prydlesau gweithredu i'r cyfrifon i adlewyrchu'r sefyllfa nad yw'r Comisiwn wedi ymrwymo'n ffurfiol i brydles.

7.6 Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r adran yn y Llythyr o Gynrychiolaeth dan y pennawd 'Gwybodaeth a ddarparwyd' gynnwys aelodau dan y trydydd pwynt bwled yn ymwneud â gwybodaeth am dwyll neu dwyll tybiedig. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei newid yn y Llythyr o Gynrychiolaeth ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon 2018-19.

**Gweithredu:** Swyddfa Archwilio Cymru **Erbyn:** 30 Mehefin 2018

7.7 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei adroddiad. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid mabwysiadu a llofnodi'r cyfrifon archwiliedig.

## 8. Cynllun Archwilio Mewnol a Chylch Gorchwyl 2018-19

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Mewnol Deloitte ar gyfer 2018-19 ymlaen, ynghyd â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr archwiliadau mewnol canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Byddai'r gwaith archwilio mewnol a gynlluniwyd ar gyfer 2018-19 yn cynnwys Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg, Prynu, Symiau Taladwy a Chaffael, yr arolwg o etholaethau Seneddol a gweithgarwch dilynol ar argymhellion y llynedd.

8.2 Nodwyd y dylai'r archwiliad o waith arolygu gynnwys arolygon etholiadol CFfDLC, yn ogystal â'r arolwg o etholaethau Seneddol. Ystyriwyd, fodd bynnag, o ystyried y wybodaeth debyg sydd ei hangen ar gyfer y ddau fath o arolwg, byddai'r nifer arfaethedig o 2.5 diwrnod archwilio yn ddigonol i gwblhau'r gwaith o hyd. **Cytunwyd** y dylid cyhoeddi Cylch Gorchwyl newydd yn cynnwys archwilio gwaith arolygu CFfG a CFfDLC a'i anfon at Aelodau cyn gynted ag y bydd ar gael.

**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid / Deloitte **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2018

8.3 Nodwyd mai 1 diwrnod archwilio yn unig a neilltuwyd ar gyfer Rheolaethau TG Cyffredinol ar gyfer archwiliad 2018-19, gan y byddai'r prif waith archwilio TG yn cael ei gyflawni yn ystod 2019-20. O ran yr archwiliad annibynnol allanol o'r trefniadau TGCh newydd, **cytunwyd** y byddai'r adroddiad archwilio terfynol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfodydd CFfDLC a'r PAAR.

**Gweithredu:** Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn:** 31 Ionawr 2019

8.4 Roedd y Pwyllgor o'r farn er bod cydymffurfiad â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn cael ei fonitro'n rhan o'r trefniadau rheoli risg, gellid ei adolygu hefyd yn rhan o archwiliad 2019-20 o waith arolygu, er mwyn sicrhau cydymffurfiad yn rhan o'r broses arolygu. **Cytunwyd** y byddai'r Cynllun Archwilio Mewnol yn cael ei ddiwygio i gynnwys rheolaethau ar gyfer ymdrin â data personol, yn rhan o archwiliad 2019-20 o waith arolygu. Cytunwyd y byddai angen cynnal trafodaeth bellach i benderfynu a fyddai angen rhagor o waith archwilio ar gyfer hyn yn 2019-20.

**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid / Deloitte **Erbyn:** 21 Tachwedd 2018

8.5 **Cytunodd** y Pwyllgor ar y Cynllun Archwilio Mewnol a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer gwaith archwilio mewnol 2018-19, yn amodol ar y newidiadau cytûn.

## 9. Asesiad Archwilio Mewnol Blyneddol 2016-17 CFfDLC

- 9.1 Crybwyllwyd bod Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg wedi cwblhau eu hasesiad blynyddol o'r archwiliad mewnol ar gyfer 2016-17. Nododd y Pwyllgor gasgliadau'r asesiad, sef bod annibynnol a pherfformiad Archwilio Mewnol o safon uchel ac wedi bodloni'r safonau yn ymwneud â sicrhau ansawdd.
- 9.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn y gellid diweddarau'r asesiad ar gyfer y flwyddyn nesaf i gynnwys cwestiynau yn ymwneud â barn aelodau ynghylch canlyniad yr archwiliad mewnol o TGCh ac arolygon etholiadol sydd ar ddod Cytunwyd y byddai'r cwestiynau newydd arfaethedig yn cael eu hanfon at aelodau er mwyn cael eu barn, a'u cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror.  
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 21 Tachwedd 2018

## 10. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

- 10.1 Ystyriodd y Pwyllgor gynnydd yn erbyn yr argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill. Nodwyd nad oedd modd darparu tystiolaeth bod yr argymhellion sy'n weddill ar gyfer 2012-13 a 2014-15 yn ymwneud ag arolygon y Comisiwn wedi'u rhoi ar waith nes i waith arolygu sylweddol gael ei gwblhau. Fodd bynnag, mae archwiliad mewnol o waith arolygu'r Comisiwn i fod i gael ei gwblhau yn ystod 2018-19, pan ddisgwylir y byddai'n bosibl dangos bod yr argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith yn llawn.
- 10.2 O'r tri argymhelliad a oedd yn weddill o 2016-17, roedd un wedi'i roi ar waith erbyn hyn. Ystyriwyd y byddai angen gohirio'r argymhellion sy'n weddill, yn ymwneud â chyfyngu ar fynediad at ffolderi TG sensitif a chael datganiad clir o gyfrifoldeb yn ymwneud â'r trefniadau TGCh newydd, nes i'r trefniadau TG newydd gael eu sefydlu ym mis Ionawr 2019, oherwydd nid yw'n bosibl symud ymlaen â'r argymhellion hyn dan y trefniadau presennol.
- 10.3 Roedd pedwar argymhelliad archwilio mewnol ac allanol yn weddill o 2017-18. Roedd dau o'r argymhellion hyn, yn ymwneud â sicrhau bod polisïau adnoddau dynol yn gyfredol a diwygio Polisi Teithio a Chynhaliaeth CFfDLC, i fod i gael eu rhoi ar waith erbyn 31 Mawrth 2018. Gohiriwyd yr adolygiad o bolisïau adnoddau anodau dynol gan fod y Rheolwr Cymorth Busnes yn ymgymryd ag ymrwymïadau eraill. Roedd yr adolygiad o'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth wedi'i gwblhau, i raddau helaeth, ond roedd wedi'i rwystro wrth aros am wybodaeth gan LIC am yswirio staff sydd i ffwrdd o'r swyddfa ar fusnes swyddogol. Cynigiwyd dyddiad gweithredu diwygiedig o 31 Rhagfyr 2018 ar gyfer y ddau ohonynt. **Cytunwyd** y byddai'r dyddiad gweithredu ar gyfer yr argymhellion hyn yn cael ei newid i 31 Rhagfyr 2018.  
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 21 Tachwedd 2018
- 10.4 Roedd yr argymhelliad a oedd yn weddill o 2017-18, sef y dylai Cynllun Corfforaethol CFfDLC gynnwys datganiad o genhadaeth, i fod i gael ei roi ar waith erbyn 30 Mehefin 2018. Fodd bynnag, roedd hyn wedi'i ohirio wrth aros am ganlyniad papur gwyrdd Llywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol, ac felly cynigiwyd dyddiad gweithredu diwygiedig o 31 Rhagfyr 2018. Nodwyd bod diwygio llywodraeth leol yn annhebygol o fynd rhagddo erbyn hyn, ac eithrio'r posibilrwydd o uno gwirfoddol rhwng prif awdurdodau, a fyddai'n cael llawer llai o effaith ar CFfDLC. Felly, roedd aelodau o'r farn y gellid dwyn dyddiad gweithredu'r

argymhelliad hwn ymlaen i 31 Hydref 2018. **Cytunwyd** y byddai'r dyddiad gweithredu ar gyfer yr argymhelliad hwn yn cael ei newid i 31 Hydref 2018.

**Gweithredu:** Rheolwyr Cyllid **Erbyn:** 21 Tachwedd 2018

10.5 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cynnydd ar weithredu argymhellion archwilio.

## 11. Rhestr Colledion 2017-18

11.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw golledion yn ystod 2017-18 ac y cyflwynwyd ffurflen gyda dim colledion i Lywodraeth Cymru, yn unol â hynny.

## 12. Prawf Cynllun Parhad Busnes 2018-19

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor ganlyniad y prawf blynyddol o Gynllun Parhad Busnes CFfDLC. Nodwyd bod y prawf wedi dangos bod y cynllun yn gyfredol, ac eithrio mân newidiadau a'r gofyniad i ddiweddarau rhai manylion cyswllt. Crybwyllwyd y byddai'r prawf o'r Cynllun Parhad Busnes y flwyddyn nesaf yn fwy helaeth ac yn cynnwys ystyried adfer ar ôl trychineb ar gyfer y trefniadau TGCh newydd.

12.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r prawf o Gynllun Parhad Busnes CFfDLC y flwyddyn nesaf gynnwys Aelodau hefyd, y gellid eu holi ynghylch eu gwybodaeth am y cynllun, ac y dylid cynnwys un Aelod mewn cynnal y prawf gyda'r Ysgrifenyddiaeth. **Cytunwyd** y byddai prawf y flwyddyn nesaf yn cael ei gynnal â chymorth gan Aelodau.

**Gweithredu:** Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn:** 30 Mehefin 2019

12.2 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar brawf y Cynllun Parhad Busnes.

## 13. Adroddiad Rheoli Risg

13.1 Ystyriwyd y cofrestrau a'r polisi risg cyfredol. Adroddwyd ar fanylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

13.2 Crybwyllwyd bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar GDPR erbyn hyn.

13.3 O ran Risg Gorfforaethol CR7 yn ymwneud ag ailstrwythuro llywodraeth leol, crybwyllwyd y byddai'r risg hon yn newid yn sylweddol yn sgil datblygiadau diweddar, a byddai'r risgiau sy'n weddill i CFfDLC yn dod o'r uno gwirfoddol posibl rhwng prif gynghorau ac ymestyn yr etholfraint. Byddai'r risg hon yn cael ei hystyried ymhellach yng nghyfarfod CFfDLC ym mis Awst, pan geir darlun cliriach o'r sefyllfa bresennol.

## 14. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

- 14.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 26 Mehefin 2018. Nodwyd bod adrodd ar y gyllideb ar gyfer adnoddau wedi'i roi ar waith erbyn hyn.

## **15. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau**

- 15.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddatganiadau o roddion neu letygarwch ar gyfer 2018-19 hyd yn hyn.

## **16. Cwynion**

- 16.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw gwynion i CFfDLC ar gyfer 2018-19 hyd yn hyn.

## **17. Adroddiad a Pholisïau Twyll a Chwythu'r Chwiban**

- 17.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll hyd yn hyn yn ystod 2018-19. Nodwyd bod y polisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll wedi'u hadolygu a'u diweddarau gan CFfDLC yn ddiweddar.

## **18. Adroddiad ar Ddiogelwch Data TG**

- 18.1 Crybwyllwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch data yn ystod 2018-19 hyd yn hyn.

## **19. Unrhyw fater arall**

- 19.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

## **20. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**

- 20.1 Mae dyddiad y cyfarfod nesaf fel a ganlyn:

21 Tachwedd 2018